Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

## Practis Deintyddol Stryd Woodfield

18 Chwefror 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-6471-1
ⓗHawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Cyd-destun ........ 3
3. Crynodeb ........ 4
4. Canfyddiadau ........ 5
   - Ansawdd Profiad y Claf ........ 5
   - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 8
   - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 13
5. Camau Nesaf ........ 14
6. Methodoleg ........ 15
   - Atodiad A ........ 17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Stryd Woodfield yn 102, Stryd Woodfield, Treforys, Abertawe, SA6 8AS ar 18 Chwefror 2016].

Edrychodd AGIC ar sut oedd Practis Deintyddol Stryd Woodfield yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth ac arweiniad perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Stryd Woodfield yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Treforys, Abertawe. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Practis Deintyddol Stryd Woodfield yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau preifat yn ogystal â gwasanaethau'r GIG.

Mae tîm practis y staff yn cynnwys dau ddeintydd a phedair nyrs ddeintyddol sydd hefyd yn rhannu cyfrifoldebau'r dderbynfa.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol, gan gynnwys ymweliadau cartref ar gyfer cleifion sydd â phroblemau symudedd.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth oedd yn dangos bod Practis Deintyddol Stryd Woodfield yn cyflenwi gofal diogel ac effeithiol. Gwelsom y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd y staff deintyddol yn ei ddefnyddio gyda'r cleifion. Gwnaeth cleifion a oedd wedi cwblhau holiaduron AGIC nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi'u derbyn ym Mhractis Deintyddol Stryd Woodfield.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw'n fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd.
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd y cyfleusterau clinigol wedi'u cyfarparu'n dda, yn lân ac yn daclus
- Mae trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-x mewn ffordd ddiogel.
- Mae offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wneud y gwelliannau canlynol:

- Mae angen cyflwyno hysbysiadau ymgynghorol a gwybodaeth am y practis i'r cleifion
- Trefniadau iechyd a diogelwch, gan gynnwys delio â'r perygl o gwympo ar y grisiau yn y practis, cael gwared ar nodwyddau, cofnodion cynnal ar gyfer offer a Phrawf Dyfeisiau Cludadwy (PAT) cyfredol.
- Systemau ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Dywedodd cleifion a ddarparodd sylwadau yn holiadur AGIC eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis.** Gwelsom y ffordd gyfeillgar a phroffesiynol y siaradodd staff â chleifion wyneb yn wyneb a thros y ffôn.Gwnaethom hefyd argymell y dylid diweddaru'r weithdrefn gwyno, ac y dylid arddangos rhywfaint o wybodaeth er mwyn i gleifion ei gweld.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC ymysg cleifion er mwyn cael safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> *"Mwy na hapus - gwasanaeth ardderchog ac ymgynghoriadau a thriniaeth bersonol. Rydw i wedi argymell y deintydd hwn i fy ffrindiau a'm teulu."*
>
> *"Hapus iawn gyda'r staff - o ran eu personoliaeth a'u cymhwysedd."*
>
> *"Mae'r gwasanaeth atgoffa am apwyntiad trwy neges destun yn dda."*
>
> *"Mae'r driniaeth a dderbynnir wedi bod o safon uchel bob amser."*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Roedd man preifat ar y llawr daear i staff gael trafodaethau â chleifion. Gwelsom y ffordd gyfeillgar a phroffesiynol y siaradodd staff â chleifion wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Roedd yr adborth gan y deunaw claf a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff.

<u>Gofal amserol</u>

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Roedd adborth o'r holiaduron cleifion yn dangos bod achosion o oedi yn brin iawn a phan oedd hynny'n digwydd rhoddodd staff esboniad am yr oedi bob tro. Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Dywedodd y mwyafrif

o'r cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Roedd hysbysiad yn ffenest y practis yn rhoi manylion y rhifau ffôn cyswllt mewn argyfwng i gleifion y GIG a oedd angen cysylltu â deintydd y tu allan i oriau. Roedd yr hysbysiad yn ffenest y practis yn dweud wrth gleifion preifat i ffonio'r practis a byddai peiriant ateb yn rhoi gwybodaeth iddynt ynglŷn â sut i gysylltu â deintydd mewn argyfwng. Esboniodd y staff fod gan y ddau ddeintydd yn y practis ffonau symudol er mwyn i gleifion allu eu ffonio pe bai argyfwng yn codi gyda'r nos neu ar y penwythnosau.

<u>Cadw'n iach</u>

Dywedodd bob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwnaethom sylwi ar ddarpariaeth ddigonol o daflenni gwybodaeth iechyd i gleifion fynd â nhw adref ac roedd rhai hysbysfyrddau yn rhoi gwybodaeth am iechyd deintyddol da a sut i gynnal hyn. Roedd gwybodaeth hefyd am gynlluniau incwm isel i gleifion i'w helpu â chostau deintyddol. Mae gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn cynorthwyo wrth gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Gwelsom fod dau holiadur wedi'u cwblhau yn Gymraeg. Dylai'r practis hefyd ystyried sut y gallai wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gleifion, megis trwy ddarparu gwybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg.

<u>Gofal unigol</u>

Roedd ymatebion i holiaduron cleifion yn dangos bod y cleifion i gyd yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o gyngor am eu triniaeth bersonol, yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn a bob amser yn teimlo bod croeso iddynt. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff bob amser yn gwrando arnynt ac yn rhoi cyngor iddynt am unrhyw bryderon a chwestiynau a allai fod ganddynt. Dywedodd cleifion wrthym hefyd eu bod wedi mwynhau'r awyrgylch cyfeillgar yn y practis.

Roedd posteri wedi'u harddangos am y gwasanaethau deintyddol amrywiol a gynigir gan y practis gan gynnwys cost triniaethau preifat.

Wrth edrych ar lyfr cwynion y practis, gwnaethom nodi mai dim ond dau gŵyn a wnaed wneud i'r practis rhwng mis Awst 2011 a mis Ionawr 2016. Cafodd y cwynion hyn eu cofnodi fel eu bod wedi ymdrin â nhw ar unwaith i foddhad y cleifion. Gwnaethom ofyn i'r staff gadarnhau mai dyma'r unig gwynion.

Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn ymfalchïo yn eu perthnasau ardderchog gyda'u cleifion a oedd yn eu galluogi i ymdrin ag unrhyw bryderon yn syth.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Canfuom fod yr ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus. Roeddem yn fodlon ar drefniadau'r practis hwn i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a bod offer pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel. Roedd cofnodion deintyddol cleifion ar y cyfan yn foddhaol, heblaw am welliannau sydd angen eu gwneud wrth ddiweddaru hanesion meddygol a chofnodi canfyddiadau clinigol profion pelydr-X. Trafodwyd pwysigrwydd cadw cofnodion clinigol cywir a chynlluniau am gadw cofnodion yn y dyfodol.**

Gofal diogel

*Cyfleusterau clinigol*

Roedd diffoddwyr tân mewn lleoedd strategol yn yr adeilad a gwelsom dystiolaeth o gontract amddiffyn rhag tân cyfredol. Roedd cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfa brys wedi'u harddangos yn glir. Er y gwelsom fod asesiad risg mewn perthynas ag iechyd a diogelwch wedi'i wneud yn yr adeilad, gwnaethom sylwi bod perygl diogelwch posibl oherwydd y gris unigol ar wahân sy'n arwain at y grisiau. Roedd y gris hwn ar ongl ac nid oedd yn hollol glir wrth ddringo neu fynd i lawr y grisiau a gwelsom adroddiadau o gwympiadau wedi'u hysgrifennu yn y llyfr damweiniau oherwydd hyn.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod iechyd a diogelwch cleifion y practis wedi'i amddiffyn, yn benodol dylai'r risgiau mewn perthynas â'r perygl o gwympo ar y grisiau gael eu datrys.***

Roedd ychydig gofnodion eraill yn y llyfr damweiniau yn ymwneud ag anafiadau a achoswyd gan nodwyddau â'r rhan fwyaf yn ymwneud ag ail-orchuddio nodwyddau. Roedd hyn oherwydd nad oedd y practis yn defnyddio system gwaredu nodwyddau diogel bob tro.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Wrth ystyried yr anafiadau a gafodd y staff, dylai'r practis adolygu'r trefniadau ar gyfer defnyddio offer miniog yn unol â Rheoliadau Gofal Iechyd Offer Miniog 2013.***

Roedd contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus.

Wrth edrych ar y dyfeisiau bach cludadwy a ddefnyddiwyd gan y practis, gwnaethom nodi  nad oedd tystysgrif Prawf Dyfeisiadau Cludadwy cyfredol ar gael er bod y dyfeisiau'n ymddangos mewn cyflwr addas yn weledol. Dylai'r practis sicrhau bod profion dyfeisiadau cludadwy yn cael eu cynnal i helpu i sicrhau bod offer yn ddiogel i'w ddefnyddio.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod pob offer a dyfais drydanol yn ddiogel i'w defnyddio ac yn benodol, dylid cynnal Profion Dyfeisiadau Cludadwy rheolaidd a dylid cadw'r dystiolaeth.***

Gwnaethom edrych ar y trefniadau cynnal a chadw ar gyfer y peiriant sy'n darparu aer cywasgedig i'r meddygfeydd (cywasgydd) a gwelsom nad oedd tystiolaeth ysgrifenedig i ddangos bod gwiriadau dyddiol wedi eu gwneud. Esboniodd staff eu bod yn cynnal gwiriadau dyddiol, ond nad oeddent bob amser yn cofnodi hyn.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylid cofnodi'r archwiliadau dyddiol ar gyfer y peiriant cywasgu aer.***

*Rheoli heintiau*

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau sydd ar waith yn y practis hwn i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Wrth siarad â'r staff roeddent yn gallu sôn am y risgiau posibl a'r mesurau y byddent yn eu cymryd er mwyn amddiffyn eu hunain a'r cleifion rhag heintiau. Gwelsom bolisi iechyd a diogelwch y practis yn seiliedig ar Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[1] (WHTM01-05). Gwelwyd enghreifftiau o ddulliau rheoli heintiau addas fel a ganlyn:

- Ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Argaeledd a'r defnydd o gyfarpar diogelu personol (PE) megis menig tafladwy, menig gwaith trwm, offer diogelu llygaid a ffedogau
- Sinc penodol i ymolchi dwylo

[1] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

- Defnydd o dechneg ymolchi dwylo addas gan staff cyn ac ar ôl gofalu am gleifion.

*Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru*

Gwelsom fod staff wedi derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd cyffuriau a chyfarpar brys sydd eu hangen yn ystod CPR (llewygu) yn gyfredol ac wedi'u storio'n ddiogel.

*Diogelu*

Gwelsom fod gan y practis bolisïau ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Ar adeg ein harolygiad, canfuom nad oedd gan bob deintydd dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Cytunodd y ddau ddeintydd i roi sylw i hyn.

Gwnaethom ofyn am wiriadau cyn-cyflogi a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i staff. Dywedwyd wrthym oherwydd bod y staff wedi'u cyflogi yn y practis ers blynyddoedd, nad oedd hynny’n ofynnol ar y pryd. Rydym yn argymell y dylid dilyn y gweithdrefnau hyn wrth recriwtio staff newydd.

Gwnaethom nodi hefyd mai ond dwy nyrs ddeintyddol oedd wedi rhoi hyfforddiant amddiffyn plant ac nad oedd yr un o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch oedolion.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylai pob aelod o staff fynychu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy’n agored i niwed.***

*Offer radiograffeg*

Oherwydd bod y practis yn gwneud sganiau pelydr-X gwelsom ddogfennaeth bod gan y ddau ddeintydd hyfforddiant cyfredol mewn ymbelydredd ïoneiddio ac roedd goruchwyliwr diogelwch rhag ymbelydredd penodol yn y practis. Roedd contract ar waith ar gyfer gwasanaethau Cynghorwr Diogelwch Rhag Ymbelydredd (RPA) a gwelsom ddogfennaeth o archwiliad sicrhau ansawdd ymbelydredd cyfredol.

Gwnaethom nodi bod un nyrs ar fin diweddaru'r hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio. Mae hyn yn ofynnol dan Reoliadau Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

2000. Gwelsom fod arwyddion adnabod, sy'n dangos mannau a reolir ar gyfer sganiau pelydr-X ar goll.

***Yr hyn mae angen ei wella:***

***Dylai pob nyrs ddeintyddol gwblhau'r hyfforddiant perthnasol mewn ymbelydredd ïïoneiddio.***

***Dylai'r practis sicrhau bod arwyddion addas sy'n rhybuddio am ymbelydredd ar waith.***

*Cofnodion cleifion*

Gwnaethom edrych yn fanwl ar samplau o gofnodion claf ymhlith cleifion y ddau ddeintydd. Dim ond dwy broblem sydd angen eu datrys. Yn gyntaf, nid oedd yr hanesion meddygol i gyd wedi'u llofnodi a'u dyddio gan y claf a'u cydlofnodi gan y deintyddion. Er nad yw cydlofnodi'n orfodol, mae'n rhaid i'r practis gael system gyson ar gyfer sicrhau bod y deintydd yn gwirio ac yn diweddaru pob hanes meddygol. Canfuom nad oedd canfyddiadau clinigol (yr hyn yr oedd y sganiau pelydr-X yn ei ddangos) bob amser yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion. Mae hyn yn ofynnol dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r broses o gadw cofnodion cleifion, yn benodol ynglŷn â'r canlynol:***

- ***Dull cyson o wirio a diweddaru hanes meddygol***
- ***Cofnodi canfyddiadau clinigol profion pelydr-X.***

<u>Gofal effeithiol</u>

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Dywedodd staff wrthym eu bod yn cynnal eu datblygiad proffesiynol drwy ddarllen llenyddiaeth berthnasol, gwneud cyrsiau addysgiadol ar-lein a gynigir gan Ddeoniaeth Cymru a sesiynau hyfforddiant mewnol. Mae’n bwysig bod gan staff fynediad at gyfleoedd hyfforddi perthnasol a'u bod yn cael eu cefnogi yn eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DTP) i sicrhau eu bod wedi eu hyfforddi'n iawn ac yn gymwys.

Er bod y practis yn cael cyfarfodydd staff, roedd y rhain ond yn digwydd pan oedd cyfle.  Gwnaethom gynghori staff am werth cofnodi cyfarfodydd practis gan eu bod yn gallu bod yn sail i adolygu, asesu a gwella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i'w cleifion. Gwnaethom nodi nad oedd trefniadau ffurfiol i staff gynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid rheolaidd gyda'i gilydd.

Gwnaethom hysbysu'r practis bod dysgu trwy adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau'n helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu rheolaidd gan gymheiriaid, fel ffordd o ddysgu, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn.Roedd staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu rolau ac roedd nifer ohonynt wedi bod yn y swydd am nifer o flynyddoedd. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n deall eu cyfrifoldebau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y deintyddion a'i gilydd. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi eu cyflogi yn y practis ers nifer o flynyddoedd. Yn gyffredinol, roedd y staff yn ymddangos fel grŵp hapus, hyderus a chydlynol. Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo arferion da a galluogi staff i ddarparu gofal diogel i gleifion.**

Nid oedd gan y practis reolwr practis penodol ac roedd yr holl gyfrifoldebau rheolaeth wedi eu gwneud gan yr uwchbartner deintyddol. Dywedodd staff eu bod yn hapus â'r trefniant hwn ac yn hyderus pe bai unrhyw broblem yn codi o'i safbwynt personol neu fel claf, y byddai'r rhain yn cael eu trin yn brydlon ac yn effeithlon.

Roedd y practis wedi ei leoli ar Stryd Woodfield ers dros hanner canrif ac roedd yn gyfyngedig o ran cynllun ac adeiladwaith yr adeilad. Er hyn, gwnaed ymdrech lle bo'n bosibl i ddarparu cyfleusterau cyfforddus, diogel a phleserus.

Gwnaethom nodi bod y staff i gyd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol. Yn unol â’r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael o fewn y practis. Mae'n rhaid diweddaru tystysgrifau oherwydd y newidiadau o fewn AGIC a chytunodd yr uwch-ddeintydd y byddai hyn yn cael ei wneud.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a’r gweithdrefnau sydd ar waith yn y practis, a gwelsom fod y rhain wedi eu haddasu i ddiwallu anghenion y practis. Roedd system ar waith i sicrhau bod unrhyw ganllawiau clinigol newydd neu wedi'u hadolygu wedi'u hychwanegu at y ffolder polisïau. Gwnaeth staff grybwyll pwysigrwydd bod yn ymwybodol o ddatblygiadau a gweithdrefnau newydd er mwyn sicrhau'r arferion gorau i gleifion ac i sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf.

Gwnaethom nodi bod rhai o'r polisïau a'r gweithdrefnau yn cynnwys enw un o'r deintyddion sydd wedi ymddeol a gwnaethom gynghori y dylai hyn gael ei ddileu o'r llenyddiaeth. Cytunodd staff i roi sylw i hyn.

## 5. Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Canolfan Ddeintyddol Stryd Woodfield yn mynd i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r materion a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd.  Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwiliad o bolisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwiliad o'r offer a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol:Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Stryd Woodfield

## Dyddiad yr arolygiad: 18 Chwefror 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | *Nid oes angen unrhyw welliannau.* | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 8 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod iechyd a diogelwch cleifion y practis yn cael ei amddiffyn, yn benodol dylid edrych ar y risgiau sy'n ymwneud â'r perygl o gwympo ar y grisiau. | Safonau Iechyd a Gofal. 2.3.<br>Safonau Iechyd a Gofal 2.9. | Gosodwyd yr arwydd 'Gwyliwch y gris' yn syth ar ôl yr arolygiad.<br>Llyfr monitro damweiniau ar gyfer unrhyw achosion eraill o gwympo. | James Rice | Cwblhawyd |
| 8 | Wrth ystyried yr anafiadau a gafodd y staff, dylai'r practis adolygu'r | Safonau Iechyd a Gofal 2.1 | Hyfforddiant pellach / adolygu sut mae offer miniog yn cael ei ddefnyddio yn y cyfarfod staff nesaf, | James Rice | 1 mis |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | trefniadau ar gyfer defnyddio offer miniog yn unol â Rheoliadau Offer Miniog mewn Gofal Iechyd 2013. | Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Miniog mewn Gofal Iechyd) 2013 | gan gynnwys atgyfnerthu'r defnydd o ddyfeisiau gorchuddio<br>Trafod unrhyw opsiynau eraill sydd ar gael. | | |
| 9 | Dylai'r practis sicrhau bod pob offer a dyfais drydanol yn ddiogel i'w defnyddio ac yn benodol, dylid cynnal Profion Dyfeisiadau Cludadwy rheolaidd a dylid cadw'r dystiolaeth. | Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Trefnu profion dyfeisiadau cludadwy gyda Leighton Hughes Fire Extinguishers | James Rice | 2 fis |
| 9 | Dylid cofnodi'r archwiliadau dyddiol ar gyfer y peiriant cywasgu aer. | Safonau Iechyd a Gofal 2.9<br>Rheoliadau Systemau Pwysedd a Chynwysydd dion Nwy | Mae llyfr cofnodion sy’n cynnwys rhestr wirio ddyddiol ar gyfer y peiriant cywasgu aer yn awr ar waith yn dilyn yr arolygiad | James Rice | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cludadwy 1989. Rheoliadau Diogelwch Systemau Pwysedd 2000. | | | |
| 10 | Dylai pob aelod o staff fynychu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. | Safonau Iechyd a Gofal 2.7 | Gwnaed hyfforddiant tîm llawn ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed gan Denplan Academy ar 27 Ebrill 2016. Tystysgrifau ar gael | James Rice | Cwblhawyd |
| 10-11 | Dylai pob nyrs ddeintyddol gwblhau hyfforddiant perthnasol mewn ymbelydredd ïoneiddio.<br><br>Dylai'r practis sicrhau bod arwyddion addas sy'n rhybuddio am ymbelydredd yn eu lle. | Cyngor Deintyddol Cyffredinol: Datblygiad Proffesiynol Parhaus i Weithwyr Deintyddol Proffesiynol<br><br>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio | Mae'r staff i gyd wedi diweddaru eu hyfforddiant Diogelu Rhag Ymbelydredd (IRMER). Yn ystod yr arolygiad, dim ond un aelod o staff nad oedd wedi cael hyfforddiant - roedd y nyrs hon yn ei chylchred cyntaf o'i datblygiad proffesiynol parhaus ac felly nid oedd angen ei wneud eto - er ei bod hi bellach wedi gorffen ei hyfforddiant Diogelu Rhag Ymbelydredd (IRMER) ar 25 Chwefror 2016. | James Rice | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | (Datguddio Meddygol) 2000<br>Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.1.6. | Mae'r holl nyrsys deintyddol wedi diweddaru eu Hyfforddiant Diogelu Rhag Ymbelydredd (IRMER).<br>Tystysgrifau ar gael ar gais.<br>Prynwyd arwyddion rhybudd ac fe'u rhoddwyd ar ddrysau mannau a reolir. | | |
| 11 | Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r broses o gadw cofnodion cleifion, yn benodol ynglŷn â'r canlynol:<br>Dull cyson o wirio a diweddaru hanes meddygol<br>Cofnodi canfyddiadau clinigol profion pelydr-X. | Safonau Iechyd a Gofal 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. 4. | Er bod hanesion meddygol cychwynnol yn cael eu llofnodi a'u cydlofnodi, byddwn yn adolygu ein polisi ar gyfer diweddaru hanesion meddygol ac mae archwiliad i'w adolygu yn cael ei gwblhau.<br>Er y nodir yr holl ganfyddiadau perthnasol, byddwn yn sicrhau y bydd pob canfyddiad yn cael ei nodi'n eglur | James Rice / Geoff Pearson | Nawr tan archwiliad 3 mis |
| 11 | Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu rheolaidd gan gymheiriaid, fel ffordd o ddysgu mwy, | Safonau Iechyd a Gofal 3.3;<br>Rheoliadau | Cofnodi'r cyfarfodydd staff yn llawn.<br>Cyfarfod staff rheolaidd i rannu arferion gorau yn cael eu cofnodi<br>Archwiliadau adolygu gan | Geoff Pearson/James Rice | Ar unwaith |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. | Deintyddiaeth Breifat. 14 (2) | gymheiriaid o fewn y tîm e.e. hanesion meddygol a radiograffau. | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | *Nid oes angen unrhyw welliannau.* | | | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (llythrennau bras):James Rice**

**Teitl:Deintydd** Partner

**Dyddiad:20/6/16**